**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | TERFYNU'R CONTRACT AM BRIF GONTRACTWR AR GYFER CAM 2 Y DEPO GWASTRAFF | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r penderfyniad dirprwyedig brys y cyfeirir ato ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.* |
| **6** | STRATEGAETH DDEWISOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD - ADRODDIAD YMGYNGHORI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*<br><br>*(b) argymell y Strategaeth a Ffefrir fel y'i diwygiwyd gan yr adroddiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol, ac*<br><br>*(c) argymell bod y Strategaeth a Ffefrir gymeradwy fel y'i diwygiwyd gan yr adroddiad yn ffurfio sail i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w Archwilio ar gyfer ymgynghoriad.* |
| **7** | CYFLWYNO SYSTEM GAFFAEL DDEINAMIG AR GYFER DARPARU GRANTIAU CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo datblygiad a gweithrediad System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu'r Grant Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau presennol.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **8** | ADNEWYDDU'R FFRAMWAITH CONTRACTWR CYNNAL A CHADW TAI GWAG | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo ail-dendro'r fframwaith tai gwag, a*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **9** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*<br><br>*(b) cymeradwyo gofynion arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Grant Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd, fel y nodir yn adran 6.8 ac Atodiad 5 yr adroddiad, ac*<br><br>*(c) cymeradwyo prosiect 'Pedair Priffordd Fawr' fel rhan o raglen Grant Ffyniant Bro De Clwyd fel y nodir yn adran 6.9 ac Atodiad 6 yr adroddiad.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |